# YMWELIADAU SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin, 2017

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Nicola Roberts - Cadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Kenneth P. Hughes, Trefor Ll. Hughes MBE, Eric Jones, R.O. Jones (ar gyfer ymweliadau 1 a 2 yn unig), Dafydd Roberts. |
| **WRTH LAW**: | Swyddog Achos Arweiniol (DPJ),<br>Swyddog Cynllunio (CR),<br>Uwch Beiriannydd (Rheoli Datblygu Priffyrdd) (EDJ). |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Vaughan Hughes, Shaun Redmond, Robin Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Cynghorwyr R. Meirion Jones ac Alun Mummery (ar gyfer ymweliad safle 2);<br>Y Cynghorwyr Bryan Owen a Peter S. Rogers (ar gyfer ymweliad safle 3). |

---

**1.** **36C351** – **Cais llawn i ddymchwel yr annedd bresennol ynghyd â chodi annedd newydd yn ei lle, codi garej a storfa offer, cau'r fynedfa gerbydau sy'n gwasanaethu'r annedd bresennol, estyniad i'r cwrtil, addasiadau i'r fynedfa amaethyddol bresennol er mwyn gwasanaethu'r annedd arfaethedig a chreu mynedfa amaethyddol newydd i'r cae cyfagos ynTy Llwyd, Rhostrehwfa**

Ymwelodd yr aelodau â'r safle a chafwyd cadarnhad ynghylch manylion y cynllun gan gynnwys lleoliad yr annedd newydd, y fynedfa arfaethedig a nifer yr adeiladau allanol i'w dymchwel. Rhoes y Swyddog Achos amlinelliad o raddfa'r adeilad arfaethedig a chafwyd cadarnhad ynghylch y cwrtil estynedig.

**2.** **31C170E – Cais llawn i godi 16 (10 annedd gyda 2 ystafell wely, 4 annwedd gyda 3 ystafell wely a 2 annedd gyda 4 ystafell wely) ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau ac i gerddwyr ar dir ger Hen Lôn Dyfnia, Llanfairpwll**

Ymwelodd yr aelodau â'r safle a rhoes y Swyddog Achos amlinelliad o'r cynnig gan gynnwys y gwasanaethau rhwng y cais blaenorol a'r cynllun cyfredol. Eglurwyd manylion y system arfaethedig ar gyfer draenio dŵr wyneb.

Eglurodd y Swyddog Priffyrdd y byddai'r droedffordd arfaethedig newydd ar ymyl y brifford ac ar dir yr ymgeisydd ac na fyddai lled cerbydlon Ffordd Penmynydd yn ddim llai o ganlyniad. Ymhellach, er y byddai'r polion telegraff ar y pafin, byddai digon o le i basio.

Rhoes Aelod Lleol gefndir y cais ac amlinellodd faterion a oedd yn peri pryder.

Ymatebodd y Swyddog Achos i'r materion hynny a oedd yn peri pryder ac ynghylch a oedd ymgynghori wedi digwydd gydag Adran Briffyrdd Llywodraeth Cymru fel gweithredwyr yr A55 a chafwyd cadarnhad bod hyn wedi digwydd a bod gwrthwynebiad dros dro wedi ei dderbyn hyd oni cheir gwybodaeth bellach.

**3. 45LPA1029A/CC/ECON – CAIS LLAWN AR GYFER CODI YSGOL GYNRADD NEWYDD YNGHYD A CHREU MYNEDFA NEWYDD I GERBYDAU AR DIR GER MORAWELON, NIWBWRCH/NEWBOROUGH**

Ymwelodd yr aelodau â'r safle a chadarnhawyd manylion y cynllun. Cadarnhaodd y Swyddog Achos bod Adroddiad Archeolegol wedi cael ei gyflwyno'n cefnogi'r cais.

Holodd yr aelodau faint o blant fyddai'n mynychu'r Ysgol Gynradd newydd a dywedodd y Swyddog Achos y byddai manylion yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**Y CYNGHORYDD NICOLA ROBERTS**
**CHAIR**